# Ffeithiau a mythau am ymrestru awtomatig

## Prif ffeithiau

Nid yw miloedd o bobl yn cynilo digon i gael yr incwm maent yn debygol o fod eisiau mewn ymddeoliad. Mae'r llywodraeth wedi cyflwyno cyfraith newydd wedi'i gynllunio i helpu gweithwyr gynilo mwy ar gyfer eu bywyd hwyrach.

- Mae angen i holl gyflogwyr ymrestru eu gweithwyr i mewn i gynllun pensiwn gweithle os nad ydynt mewn un yn barod, yn dechrau o fis Hydref 2012.
- Bydd gweithwyr yn gallu eithrio os ydynt eisiau gwneud hynny, ond os ydynt yn aros i mewn byddant yn derbyn cyfraniadau gan eu cyflogwyr a rhywfaint o ryddhad treth.
- Bydd unrhyw un sy'n eithrio, neu'n rhoi'r gorau i wneud taliadau i mewn i'w pensiwn, yn cael eu hymrestru yn ôl i mewn yn awtomatig ar ysbeidiau rheolaidd. Gallant eithrio eto os ydynt eisiau.

## Pwy fydd yn cael eu hymrestru i mewn i gynllun pensiwn gweithle yn awtomatig?

Yn dechrau o fis Hydref 2012, bydd gweithwyr yn cael eu hymrestru yn awtomatig i mewn i gynllun pensiwn gweithle gan eu cyflogwyr os:

- nid ydynt yng nghynllun pensiwn eu cyflogwr yn barod;
- ydynt yn 22 oed neu drosodd;
- ydynt o dan oedran Pensiwn y Wladwriaeth;
- ydynt yn ennill mwy na £9,440 y flwyddyn (gallai'r ffigwr hwn newid); ac os ydynt;
- yn gweithio, neu weithio fel arfer, yn y DU.



Pan fyddwch chi'n cyfrannu, bydd eich cyflogwr hefyd yn ogystal â'r llywodraeth drwy ryddhad o dreth.

ymrestru awtomatig

Adran Gwaith a Phensiynau

# Pryd y bydd hyn yn digwydd?

Bydd yr amseriad o pryd fydd cyflogwyr yn ymrestru eu gweithwyr yn awtomatig yn dibynnu ar eu maint. Bydd y Rheolydd Pensiynau yn hysbysu cyflogwyr o'r union ddyddiad. Mae cyflogwyr mawr iawn yn ei wneud gyntaf, yn dechrau o fis Hydref 2012.

**Ffeithiau a mythau am gynlluniau pensiwn gweithle**

Rydym yn gwybod fod pensiynau a chynilo yn gallu bod yn gymhleth. Gall pobl deimlo mewn penbleth am beth maent angen ei wneud i sicrhau fod ganddynt ddigon o incwm i ariannu eu hymddeoliad. Isod rydym wedi archwilio ac egluro rhai mythau cyffredin am gynlluniau pensiwn gweithle.

## Myth

"Yn dechrau o fis Hydref 2012 bydd pob gweithiwr yn cael eu gorfodi i gynilo mewn cynllun pensiwn gweithle p'un os ydynt eisiau neu beidio."

## Gwirionedd

Gall gweithwyr eithrio os nad yw cynilo pensiwn yn iawn iddynt hwy. Os ydynt yn eithrio o fewn mis o'r diwrnod maent yn dod yn aelod o'r cynllun yn swyddogol, byddant yn cael unrhyw gyfraniadau maent wedi'u gwneud yn ystod yr amser hwn yn ôl. Gall gweithwyr sydd wedi eithrio ail ymuno ar ddyddiad hwyrach os ydynt yn dymuno. Oherwydd rydym yn credu fod cynilo ar gyfer ymddeoliad yn bwysig, mae'n rhaid i gyflogwyr ymrestru gweithwyr cymwys yn ôl i'w cynllun tua phob tair blynedd.

## Myth

"Ni all gweithwyr sydd o dan 22 neu dros oedran Pensiwn y Wladwriaeth ymuno â chynllun pensiwn gweithle."

## Gwirionedd

Gall gweithwyr sy'n ennill dros £9,440 y flwyddyn (gall y ffigwr hwn newid) ac sydd rhwng 16 a 22 oed, neu sydd rhwng oedran Pensiwn y Wladwriaeth a 75 oed, ddewis i ymuno â chynllun pensiwn gweithle. Ni fyddant yn cael eu hymrestru yn awtomatig ond os ydynt yn dewis i ymuno, bydd rhaid i'w cyflogwyr wneud cyfraniad a byddant yn cael rhywfaint o ryddhad treth.

## Myth

"Nid oes rhaid i gyflogwyr ymrestru gweithwyr yn awtomatig i gynllun pensiwn gweithle os nad ydynt eisiau gwneud hynny."

## Gwirionedd

Mae'n rhaid i holl gyflogwyr gydymffurfio â'r gyfraith newydd. Bydd ymrestru awtomatig yn cychwyn o fis Hydref 2012, yn dechrau gyda'r cyflogwyr mwyaf. Ni ddylai cyflogwyr:

- gwahaniaethu o blaid ymgeiswyr am swydd sy'n dangos eu bod yn fodlon i eithrio;
- annog gweithwyr i eithrio o gynllun pensiwn cymwys; neu
- drin gweithiwr yn annheg neu eu rhoi o dan anfantais oherwydd ymrestru awtomatig.

Gall y Rheolydd Pensiynau helpu cyflogwyr i fynd i'r afael â'u dyletswyddau newydd a sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r cyfreithiau newydd. Mae gwybodaeth ddefnyddiol ar gael ar eu gwefan yn www.yrheolyddpensiynau.gov.uk

**www.thepensionsregulator.gov.uk**

## Myth

"Dim ond cyflogwyr gyda phump neu fwy o weithwyr fydd yn gorfod ymrestru eu gweithwyr cymwys yn awtomatig i gynllun pensiwn gweithle."

## Gwirionedd

Yn dechrau o fis Hydref 2012 bydd holl gyflogwyr (gydag un gweithiwr neu fwy) yn gorfod cydymffurfio â'r gyfraith newydd ac ymrestru holl weithwyr cymwys i mewn i gynllun pensiwn gweithle cymwys.

Gallwch ddod o hyd i fwy o wybodaeth yn:
**www.dwp.gov.uk/workplacepension**

Gellir cael gwybodaeth i gyflogwyr a busnesau ar Wefan Y Rheolydd Pensiynau (TPR) yn:
**www.thepensionsregulator.gov.uk**

Dylai unigolion ymweld â:
**www.gov.uk/workplacepensions**

Canllaw yn unig yw'r daflen ffeithiau hon ac nid yw'n cwmpasu pob amgylchiad. Mae'r wybodaeth sy'n cael ei gynnwys yn y ddogfen hon yn gywir fel y mae ar Ebrill 2013. Efallai bydd rhywfaint o'r wybodaeth yn mynd yn anghywir dros amser, er enghraifft oherwydd newidiadau i'r gyfraith.




Y cynharaf y byddwch yn dechrau'r mwyaf o arian y gallech ei gael i fwynhau eich ymddeoliad.

Adran Gwaith a Phensiynau

Cyhoeddwyd gan
Yr Adran Gwaith a Phensiynau
Ebrill 2013

**www.dwp.gov.uk**

Ymrestru awtomatig Prif ffeithiau a mythau (cyhoeddiad diwygiedig)

ISBN 978-1-78153-453-3